Rhan CH – Y pleidleisio

Cynnwys

1 Materion diwrnod y pleidleisio i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a staff
- Cyflwyniad
- Oriau pleidleisio
- Ymholiadau cyhoeddus
- Ceisiadau dirprwy brys
- Amnewid pecynnau pleidleisio drwy'r post neu rai a ddifethwyd
- Ymweliadau â gorsafoedd pleidleisio
- Ymateb i argyfyngau

2 Rheoli'r orsaf bleidleisio
- Briffiadau i staff gorsaf bleidleisio
- Cyfarpar
- Personau â'r hawl i fod yn bresennol mewn gweithrediadau ar ddiwrnod y pleidleisio
- Darparu gwybodaeth anffurfiol am nifer y pleidleiswyr gan Swyddogion Llywyddu
- Personadu
- Etholwyr dienw

3 Y gofrestr etholwyr
- Gwallau clercyddol

4 Rhifwyr ac asiantau pleidleisio
- Rhifwyr
- Asiantau pleidleisio

5 Gweithdrefn ar gau'r pleidleisio

Atodiad – Adnoddau
- Rhestr wirio cyfarpar
- Rhestr wirio hygyrchedd ar gyfer diwrnod y pleidleisio – gosod gorsaf bleidleisio
- Hysbysiad o ofynion cyfrinachedd

1 Materion diwrnod y pleidleisio i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a staff

Cyflwyniad

1.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cynhyrchu *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio* a baratowyd i gynorthwyo Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio. Mae'n ymdrin â gweithdrefnau rheoli gorsaf bleidleisio a dylid cyfeirio ato os bydd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â dyletswyddau staff gorsaf bleidleisio.

1.2 Nid yw'r rhan hon o'r llawlyfr canllawiau yn ailadrodd cynnwys y llawlyfr hwnnw, ond yn lle hynny ei nod yw ymdrin â'r problemau sy'n effeithio ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a gweinyddwyr etholiadol ar ddiwrnod y pleidleisio.

Gellir lawrlwytho copi o'r *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio* ac amrywiaeth o ddeunyddiau cefnogol gorsafoedd pleidleisio o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Oriau pleidleisio

1.3 Oriau pleidleisio ar gyfer etholiadau cyffredinol Seneddol y DU, ac ar gyfer unrhyw etholiadau y cyfunwyd y pleidleisiau, yw **7am** i **10pm**.

Ymholiadau cyhoeddus

1.4 Yn ystod yr wythnosau'n arwain at ddiwrnod y pleidleisio, gall staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddisgwyl derbyn nifer o ymholiadau gan y cyhoedd, o gwestiynau gan bobl nad ydynt yn gwybod ble mae eu gorsaf bleidleisio i ymholiadau am faterion yn ymwneud â chofrestru etholiadol.

I fod yn barod i ddelio â'r nifer hwn o ymholiadau mae'r Comisiwn yn argymell bod y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn sefydlu tîm ymholiadau dynodedig. Gweler Adran 13, 'Cyfathrebu' yn *Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU* am ragor o wybodaeth.

1.5 Mae'n debygol mai aelodau o'r cyhoedd sy'n dod i'r orsaf bleidleisio ac yn darganfod nad ydynt ar y gofrestr etholiadol ac felly'n methu â phleidleisio fydd un o'r ymholiadau mwyaf cyffredin ar ddiwrnod y pleidleisio. Os nad ydynt wedi gwneud cais i gael eu cofrestru neu os nad ydynt wedi cyflwyno cais mewn amser i gael eu hychwanegu i'r gofrestr ar gyfer yr etholiadau, gellid rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddog Llywyddu gynnig anfon manylion cyswllt y person at y Swyddog Cofrestru Etholiadol fel y gellir anfon ffurflen gofrestru parhaus atynt. Fel arall, gellir rhoi ffurflenni cofrestru parhaus i Swyddogion Llywyddu iddynt eu darparu i'r bobl hynny. Dylai Swyddogion Canlyniadau

(Gweithredol) drafod â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol i gytuno ar y broses i'w dilyn.

1.6 Os yw'r person yn mynnu iddo/iddi wneud cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i gofrestru i bleidleisio, dylid rhoi cyfarwyddyd i'r Swyddogion Llywyddu gyfeirio'r cyfryw berson i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol am ei fod yn bosibl diwygio'r gofrestr etholiadol tan 9pm ar ddiwrnod y pleidleisio os bu gwall clercyddol.[1] Gellir cael rhagor o wybodaeth am wallau clercyddol yn Adran 3, 'Y gofrestr etholiadol'.

1.7 Gall staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddisgwyl derbyn llawer o ymholiadau amrywiol gan etholwyr, ymgeiswyr, asiantau a phobl sy'n weithgar mewn pleidiau, a staff gorsafoedd pleidleisio. Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i ddelio â'r ymholiadau, a allai gynnwys hyfforddi staff perthnasol a rhoi rhestr o gwestiynau cyffredin (FAQs) iddynt.

1.8 Mae'n arbennig o bwysig rhagweld unrhyw ymholiadau a all godi mewn perthynas â newidiadau i weithdrefnau pleidleisio sydd wedi dod i rym ers yr etholiad cyffredinol Seneddol diwethaf y DU, er enghraifft pryderon ynghylch cyfrinachedd y pleidleisio o ganlyniad i ddefnyddio'r rhestr rhifau cyfatebol, sy'n cynnwys rhif y papur pleidleisio a rhif yr etholwr.

Ceir patrymlun o Gwestiynau Cyffredin ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio yn yr *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio*.

Ceisiadau dirprwy brys

Gall etholwr benodi dirprwy hyd at **5pm** ar ddiwrnod y pleidleisio, os aiff yn sâl neu'n anabl ar ôl **5pm** ar y chweched ddiwrnod gwaith cyn diwrnod y pleidleisio, h.y. ni allai fod wedi gwneud cais am bleidlais absennol o dan y drefn arferol.

1.9 Bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) dynnu sylw staff gorsafoedd pleidleisio at y posibilrwydd hwn a thrafod gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol er mwyn pennu gweithdrefnau ar gyfer derbyn ceisiadau ar ddiwrnod y pleidleisio ac ar gyfer cysylltu â Swyddogion Llywyddu os caniateir unrhyw gais ar ôl i'r rhestr o ddirprwyon gael ei hanfon i'r orsaf bleidleisio.

1.10 Mae'n rhaid gwneud y cais i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Os gwneir y cais ar ddiwrnod y pleidleisio, neu ar ôl anfon y rhestr o ddirprwyon at yr orsaf bleidleisio, bydd angen canfod ffordd i drosglwyddo'r wybodaeth hon i'r Swyddog Llywyddu yn yr orsaf bleidleisio lle y bydd y dirprwy'n pleidleisio, am ei fod yn amlwg na fydd y dirprwy brys ar y rhestr wreiddiol o ddirprwyon a ddarparwyd.

[1] Adran 13B, RPA 1983, fel y'i diwygiwyd gan RPA 1985 a RPA 2000.

1.11 Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn argymell y dylid rhoi llythyr i ddirprwy unrhyw bleidleisiwr y derbyniwyd ei gais yn ei awdurdodi i weithredu fel dirprwy, y dylai gynnwys manylion y person y mae'n pleidleisio drosto. Dylid rhoi cyfarwyddyd wedyn i'r dirprwy fynd â'r awdurdodiad hwn gydag ef pan aiff i bleidleisio a dylid ei roi i'r Swyddog Llywyddu. Gellir cadw'r llythyr gyda'r rhestr o ddirprwyon yn gofnod i bapur pleidleisio gael ei gyhoeddi i'r dirprwy.

1.12 Dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu yn uniongyrchol â'r Swyddog Llywyddu priodol er mwyn rhoi gwybod iddo i ddirprwy brys gael ei benodi, yn enwedig gan nad yw'r gyfraith yn mynnu bod rhaid rhoi unrhyw ddogfennau i'r dirprwy er mwyn caniatáu iddo bleidleisio ar ran etholwr sy'n sâl neu'n anabl. Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn argymell y dylid cyhoeddi rhestr atodol o ddirprwyon i'r orsaf bleidleisio, a dylid ychwanegu'r rhestr hon at y rhestr wreiddiol a ddarparwyd.

Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu rhai ffurflenni cais i Swyddogion Llywyddu, y gall etholwyr sydd wedi dioddef o argyfwng meddygol ar ôl 5pm ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais eu defnyddio i wneud cais am ddirprwy brys. Mae hyn yn golygu na fyddai rhaid i'r etholwr ganfod ffurflen ac yn cyflymu'r broses i'r etholwr a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae'r Comisiwn wedi darparu ffurflenni y gellir eu lawrlwytho ar ei wefan yn www.fymhleidlaisi.co.uk.

Rhoddir rhagor o wybodaeth am geisiadau am bleidlais drwy ddirprwy brys yn *Rheoli cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr: Canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Rhan E, 'Pleidleisio absennol', Adran 4, 'Pleidleisio drwy ddirprwy'.*

Amnewid pecynnau pleidleisio drwy'r post a gollwyd neu a ddifethwyd

1.13 Gall pleidleiswyr post a dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am amnewid pecyn pleidleisio tan 5pm ar ddiwrnod y pleidleisio os nad ydynt wedi derbyn pecyn pleidleisio drwy'r post, neu os ydynt wedi colli neu wedi difetha rhai neu'r cyfan o'r cynnwys. At hyn, gellir amnewid pecynnau pleidleisio drwy'r post i'r etholwyr neu ddirprwyon hynny sydd ar restr pleidleiswyr drwy'r post neu bleidleiswyr drwy ddirprwy drwy'r post ond sy'n honni nad ydynt erioed wedi gwneud cais am bleidlais drwy'r post ac nad ydynt wedi derbyn un.

Mae'r Comisiwn wedi cynhyrchu patrymlun o ffurflen y gellir cofnodi manylion unrhyw etholwr neu ddirprwy sy'n honni nad yw wedi gwneud cais am bleidlais trwy'r post arni, ac mae lle ar y ffurflen hon i'r etholwyr neu'r dirprwyon lofnodi. Byddai llenwi'r ffurflen hon, er nad yw'n ofynnol, yn darparu llofnod y gellir ei wirio yn erbyn y ffurflen gais wreiddiol am bleidlais absennol ar ôl yr etholiad, a'i drosglwyddo i'r heddlu, os bydd hynny'n briodol. Mae'r patrymlun o ffurflen hon ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

1.14 Gan mai dim ond â llaw y gellir amnewid pecynnau o 5pm ar y diwrnod cyn diwrnod y pleidleisio, mae angen bod staff sydd wedi'u hyfforddi ar gael ar ddiwrnod y pleidleisio i ddelio â'r ymholiadau hyn ac ag unrhyw ymholiadau cysylltiedig. Mae'n bwysig sicrhau bod yr aelodau hyn o'r staff yn gallu rhoi cyngor ar y mathau o foddau adnabod y mae'n ofynnol i etholwyr eu cyflwyno pan fyddant yn gwneud cais am becyn pleidleisio newydd.

Mae rhagor o gyngor ar y mathau o foddau adnabod â'r broses gyffredinol yn ymwneud ag amnewid pecynnau pleidleisio drwy'r post yn Rhan C, 'Pleidleisio absennol', Adran 6, 'Amnewid pleidleisiau drwy'r post'.

Ymweliadau â gorsafoedd pleidleisio

1.15 Rydym yn argymell yn gryf fod y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn rhoi trefniadau ar waith i swyddogion perthnasol ymweld â gorsafoedd pleidleisio a'u harchwilio ar eu rhan. Er mai mater i'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yw penderfynu ar union natur yr ymweliadau hyn, gellir eu defnyddio at sawl pwrpas, er enghraifft gwirio bod yr holl hysbysiadau y tu mewn a'r tu allan i fythau pleidleisio'n cael eu harddangos yn gywir a bod y bythau pleidleisio wedi'u gosod mewn ffordd sy'n sicrhau y caiff pobl farcio eu pleidlais yn gyfrinachol. Gellid defnyddio'r ymweliadau hyn hefyd i wneud asesiad ar faterion hygyrchedd ac i ateb unrhyw ymholiadau sydd gan y Swyddogion Llywyddu.

Mae rhestr wirio hygyrchedd ar gyfer gorsafoedd pleidleisio i'w chael yn yr Atodiad, 'Adnoddau', ac yn yr *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio.*

1.16 Gallai swyddogion sy'n ymweld hefyd fynd â chyfarpar sbâr, deunydd ysgrifennu ac eitemau eraill fel ffurflenni, amlenni a chopïau o'r gofrestr etholwyr â hwy, rhag ofn y bydd unrhyw broblemau mewn gorsafoedd pleidleisio, e.e. diffyg eitemau neu eitemau ar goll, neu offerynnau stampio nad ydynt yn gweithio (os defnyddir hwy).

1.17 Gellir mynd â phleidleisiau drwy'r post yn bersonol i'r orsaf bleidleisio drwy gydol diwrnod y pleidleisio, a gallai'r Swyddogion Canlyniadau ddefnyddio'r ymweliadau hyn â gorsafoedd pleidleisio i gasglu'r pleidleisiau drwy'r post hyn. Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gasglu pleidleisiau drwy'r post drwy gydol diwrnod y pleidleisio a'u hagor yn ystod sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post drwy gydol y diwrnod er mwyn lleihau'r nifer y mae'n rhaid ymdrin â hwy ar ôl diwedd y pleidleisio.

1.18 Mae'n bwysig sicrhau y cludir pleidleisiau drwy'r post a gymerir allan o'r orsaf bleidleisio cyn diwedd y pleidleisio mewn dull diogel a bod trywydd archwilio clir ar eu cyfer. Er enghraifft, dylid cludo pleidleisiau drwy'r post mewn paced wedi'i selio a defnyddio log i gofnodi nifer amlenni'r pleidleisiau drwy'r post a gymerwyd ymaith, ynghyd â'r amser casglu a manylion y person a'u casglodd.

Ymateb i argyfyngau

1.19 Gall fod gwahanol argyfyngau ar ddiwrnod y pleidleisio, e.e. tân mewn gorsaf bleidleisio, Swyddog Llywyddu'n rhedeg allan o bapurau pleidleisio neu staff gorsaf bleidleisio yn mynd yn sâl. Bydd y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) eisoes wedi datblygu nifer o gynlluniau wrth gefn er mwyn ymdrin ag argyfyngau o'r fath.

Mae Adran 4 Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU yn darparu rhagor o wybodaeth am y gwaith rheoli risgiau y dylid ei wneud fel rhan o'r broses cynllunio etholiad. Mae'r Comisiwn hefyd wedi datblygu patrymlun cofrestr risgiau fel rhan o gynlluniau patrymluniau etholiad cyffredinol Seneddol y DU, sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

1.20 Mae'n bwysig bod y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn esbonio'n glir wrth y Swyddogion Llywyddu â phwy y dylent gysylltu os bydd argyfwng. Dylid rhoi o leiaf un rhif ffôn cyswllt iddynt ar gyfer swyddfa'r etholiad, a dylai staff fod yn y swyddfa hon drwy gydol diwrnod y pleidleisio. Dylai fod gan staff yn swyddfa'r etholiad rifau ffôn symudol ar gyfer unrhyw swyddogion sy'n ymweld, yn arbennig gan ei fod yn bosibl mai hwy fydd agosaf at unrhyw orsaf bleidleisio lle y mae argyfwng wedi digwydd ac felly hwy fydd yn y sefyllfa orau i ymateb yn gyflym.

1.21 Dylid rhoi rhif cysylltu â'r heddlu i Swyddogion Llywyddu. Gall yr heddlu ymweld â gorsafoedd pleidleisio yn ystod oriau pleidleisio.

Dylid annog swyddogion yr heddlu sy'n ymweld â Swyddogion Llywyddu i gyfnewid eu manylion cysylltu. Dylai fod gan bob swyddog yr heddlu ganllaw poced sy'n ymdrin â materion hygrededd etholiadol a gellir nodi manylion y Swyddog Llywyddu ar hwn.

Mae rhagor o fanylion ar hyrwyddo hygrededd etholiadol a chreu cysylltiadau â'r heddlu ar gael yn Adran 18 *Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU* ac ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/integrity-guidance/electoral-events.

2 Rheoli'r orsaf bleidleisio

Briffiadau i staff gorsaf bleidleisio

2.1 Dylai fod yn ofynnol i holl staff gorsaf bleidleisio fynychu sesiwn friffio ychydig cyn diwrnod y pleidleisio. Dylai'r sesiwn hon roi'r holl wybodaeth sydd eu hangen arnynt i Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio er mwyn cynnal y bleidlais, gan gynnwys unrhyw wybodaeth leol berthnasol.

Mae sawl adnodd i gefnogi hyfforddi staff gorsafoedd pleidleisio ar gael ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

2.2 Un mater penodol y dylai hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ymdrin ag ef yw sicrhau bod Swyddogion Llywyddu'n derbyn cyngor ar sut i lenwi'r cyfrifon papurau pleidleisio'n gywir. Yn sylfaen i ddilysu a chyfrif pleidleisiau'n gywir y mae cyfrif papur pleidleisio wedi'i lenwi'n gywir, ac felly mae'n hanfodol bod y Swyddogion Llywyddu wedi'u hyfforddi'n ddigonol.

Dylai'r cyfrif papur pleidleisio gynnwys y canlynol:

- cyfanswm y papurau pleidleisio arferol a gyhoeddwyd i'r Swyddog Llywyddu
- nifer y papurau pleidleisio a gyhoeddwyd (fel arfer drwy gyfrifiad a wneir ar y cyfrif)
- nifer y papurau pleidleisio heb eu defnyddio
- nifer y papurau pleidleisio a ddifethwyd
- nifer y papurau pleidleisio a gyflwynwyd a'u defnydd

2.3 Dylai hyfforddiant i staff gorsaf bleidleisio hefyd gynnwys gwybodaeth am faterion a gweithdrefnau hygyrchedd gan gynnwys defnyddio'r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy. Er y dylai unrhyw sesiwn hyfforddi neu friffio ymdrin â materion yn ymwneud â galluogi pobl ag anableddau i bleidleisio, mae mynediad at y broses etholiadol i bob etholwr yn hanfodol-bwysig. Ni fydd yr un anghenion gan bob etholwr ac felly dylid hyfforddi staff gorsaf bleidleisio i ganolbwyntio ar wasanaethu cwsmeriaid a mynd i'r afael â gofynion yr unigolyn penodol. Ceir rhestr wirio ar hygyrchedd yn yr Atodiad, 'Adnoddau'.

2.4 Dylid gwerthuso pob sesiwn friffio er mwyn mesur eu heffeithiolrwydd. Un dull posibl o'u gwerthuso fyddai gofyn i bawb sy'n eu mynychu lenwi holiadur, naill ai ar ddiwedd y sesiwn neu efallai ar ddiwedd y pleidleisio, pan fydd staff mewn sefyllfa i benderfynu a oedd y sesiwn friffio a gawsant wedi'u galluogi i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd llwyddiannus ar ddiwrnod y pleidleisio. Gellir defnyddio canfyddiadau'r fath werthusiad i arwain datblygu unrhyw raglen hyfforddi i staff gorsafoedd pleidleisio yn y dyfodol.

Fel rhan o fframwaith safonau perfformiad y Comisiwn, mae gofyn i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu hyfforddiant ar faterion hygyrchedd ac ymwybyddiaeth anabledd er mwyn cwrdd â safon perfformiad 3 - Hyfforddiant. Fel tystiolaeth i gefnogi'r asesiad, mae gofyn i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) gofnodi amserlen o weithgareddau hyfforddi, gan restru'r topigau yr ymdrinnir â hwy a sut y caiff yr hyfforddiant ei gyflawni. Yn ogystal â hynny, mae gofyn i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) werthuso pob gweithgaredd hyfforddi a gyflawnir. Mae rhagor o wybodaeth am safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ar wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/performance-standards ac yn Rhan F, 'Safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr.'

Cyfarpar

2.5 Mae gofyn i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddarparu digon o gyfarpar i bob gorsaf bleidleisio, gan gynnwys: blychau pleidleisio; papurau pleidleisio; copi o'r gofrestr etholwyr; y rhestr rhif cyfatebol; rhestri'r pleidleiswyr drwy'r post, rhestri'r dirprwyon sy'n pleidleisio a dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post; yr hysbysiadau, ffurflenni a phacedi perthnasol; ac o leiaf un fersiwn print bras o'r papur pleidleisio a'r ddyfais bleidleisio gyffyrddadwy.[2]

Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r rhestr rhifau cyfatebol i'w defnyddio yn yr orsaf bleidleisio **beidio** â chynnwys marciau adnabod unigryw'r papurau pleidleisio.[3]

2.6 Dylid rhoi copi i bob Swyddog Llywyddu o'r rhestr o gyfarpar y dylent fod wedi'u cael iddynt gael gwirio bod popeth ganddynt ar ddiwrnod y pleidleisio.

2.7 Ceir rhestr wirio lawn o'r cyfarpar yn Atodiad, 'Adnoddau'.

Personau â'r hawl i fod yn bresennol mewn gweithrediadau ar ddiwrnod y pleidleisio

2.8 Mae'r gyfraith yn cyfyngu ar y rhai sy'n cael bod yn bresennol mewn gorsaf bleidleisio. Yn ogystal â phleidleiswyr ac aelodau o staff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), dim ond y bobl ganlynol sy'n cael bod yn bresennol:

- personau dan 18 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr
- ymgeiswyr yn yr etholiad, eu hasiantau etholiad a'u his-asiantau
- asiantau pleidleisio (dim ond un asiant pleidleisio yr ymgeisydd ar unrhyw adeg)
- swyddogion yr heddlu ar ddyletswydd
- cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol
- arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn

[2] Rheol 29, PER.
[3] Rheol 29(3), PER.

- cymdeithion pleidleiswyr anabl

Personau dan 18 oed sy'n dod gyda phleidleiswyr

2.9 Caiff personau dan 18 oed ddod i mewn i'r orsaf bleidleisio gyda phleidleiswyr. Gall y Swyddog Llywyddu gyfyngu ar nifer y bobl dan 18 oed yn yr orsaf bleidleisio ar unrhyw adeg, ond ni ddylid defnyddio'r pŵer hwn os nad yw eu presenoldeb yn rhwystro'r gweithgareddau mewn rhyw ffordd.

Cynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol

2.10 Mae gan gynrychiolwyr y Comisiwn hawl i arsylwi gwahanol weithgareddau etholiadol yn ogystal ag arferion gwaith Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cyfrif Refferendwm a staff a benodwyd ganddynt. [4] Mae hyn yn cynnwys mynychu gorsafoedd pleidleisio yn ystod, cyn ac ar ôl oriau pleidleisio. Gallant ofyn cwestiynau i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i staff, i ymgeiswyr a'u hasiantau, ac i etholwyr. Gorchmynnir i gynrychiolwyr y Comisiwn i beidio ag ymyrryd ar y gweithrediadau mewn unrhyw ffordd.

Arsylwyr achrededig

2.11 Gall unigolion a chyrff wneud cais i'r Comisiwn i gael eu hachredu i arsylwi ar y gweithrediadau wrth gyhoeddi a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post, y bleidlais a chyfrif y pleidleisiau.

2.12 Nid oes angen i arsylwyr a achredwyd gan y Comisiwn roi gwybod o flaen llaw ble y maent yn bwriadu arsylwi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bob arsylwr gario dull adnabod ffotograffig a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ac ni ddylid caniatáu iddynt arsylwi'r gweithrediadau hebddo. Mae bathodynnau arsylwyr sampl i'w gweld yn Adran 19 *Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU,* yn y *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio* ac ar wefan y Comisiwn.

2.13 Gall y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) a'i staff wirio statws y rhai sy'n ceisio mynediad at y gweithrediadau fel arsylwyr unrhyw bryd drwy lawrlwytho cofrestri'r arsylwyr achrededig o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/elections/electoral-observers. Gan fod yr achrediad ond yn dod yn weithgar dridiau ar ôl ychwanegu arsylwr i'r gofrestr arlein, mae'r cofrestri'n 'cau' i bob pwrpas dridiau cyn diwrnod y pleidleisio.

[4] Adrannau 6A a 6B, PPERA.

Mae arsylwi etholiadol yn rhan ddilys a gwerthfawr o'r broses etholiadol, a dylid gofalu na rwystrir nag atelir y broses arsylwi. Er bod gan y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) hawl i gyfyngu ar nifer yr arsylwyr achrededig a all fod yn bresennol yn y gweithrediadau,[5] mae'r Comisiwn yn argymell y defnyddir pwyll wrth arfer y pŵer hwn. Mae'n bwysig nodi nad oes gan unrhyw swyddog hawl i wahardd pob arsylwr o'r broses gyfan, dim ond i gyfyngu ar nifer yr arsylwyr sy'n bresennol ar unrhyw adeg. Mae angen felly roi ystyriaeth ofalus i'r lleoliadau a ddefnyddir fel gorsafoedd pleidleisio neu ar gyfer sesiynau agor pleidleisiau drwy'r post, gan sicrhau y rhoddir digon o le ar gael i'r arsylwyr.

Ym mhob achos, dylai swyddogion ddim ond ceisio cyfyngu ar nifer yr arsylwyr os yw eu presenoldeb yn rhwystr i gynnal y gweithrediadau neu'n peryglu cyfrinachedd y pleidleisio.

Mae dyletswydd ar arsylwyr a chynrychiolwyr y Comisiwn ddilyn Cod Ymarfer, sydd ar gael o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/elections/electoral_observers.

Dylai Swyddogion Llywyddu fod yn gyfarwydd â phwyntiau amlwg y Cod a dylid rhoi cyfarwyddyd iddynt roi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am unrhyw doriadau posibl.

Dylai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) wneud adroddiadau am unrhyw gyhuddiadau cyn gynted ag y bo modd i Brif Swyddfa'r Comisiwn ar 020 7271 0698.

Yn ogystal â hynny, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi canllawiau i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ac i Swyddogion Llywyddu ar arfer eu pwerau mewn perthynas ag arsylwyr, fel sy'n ofynnol yn statudol. Ymgorfforwyd y canllawiau hyn yn y Cod ymarfer ar gyfer arsylwyr y cyfeirir ato uchod. Mae gofyn i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) a Swyddogion Llywyddu gyfeirio at y canllaw hwn cyn arfer unrhyw un o'u pwerau mewn perthynas ag arsylwyr, fel eu gwahardd o orsafoedd pleidleisio (gweler y dudalen we uchod).

Y cyfryngau

2.14 Er nad oes gan gynrychiolwyr o'r cyfryngau unrhyw hawl awtomatig i fynd i mewn i orsaf bleidleisio (heblaw fel etholwr yn ceisio bwrw pleidlais), gallant wneud cais i fod yn arsylwr achrededig. Mae'n rhaid trin cynrychiolwyr o'r cyfryngau a achredwyd gan y Comisiwn ac sy'n bresennol yn y cymhwyster hynny fel unrhyw arsylwr achrededig arall. Yn yr un modd ag arsylwyr eraill, rhwymir hwy gan God ymarfer y Comisiwn ar gyfer arsylwyr, sy'n cynnwys gofyniad i gadw cyfrinachedd y bleidlais, a chan unrhyw benderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar ddefnyddio camerâu a chyfarpar recordio arall.

[5] Adran 6E, PPERA.

2.15 Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried darparu manylion cyswllt staff etholiadol neu staff cyfathrebu perthnasol eraill y cyngor i Swyddogion Llywyddu rhag ofn i aelodau o'r cyfryngau gysylltu â hwy.

Mae Adran 13 *Hanfodion rheoli etholiadau yn effeithiol: cynllunio ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU* yn cynnig canllawiau pellach i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ar ymdrin â'r cyfryngau.

Darparu gwybodaeth anffurfiol am nifer y pleidleiswyr gan Swyddogion Llywyddu

2.16 Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o arferion gwahanol ymhlith Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) o ran p'un ai a oes gan eu Swyddogion Llywyddu ganiatâd i ryddhau gwybodaeth neu beidio ar nifer y pleidleiswyr i ymgeiswyr a'u hasiantau drwy gydol y dydd.

2.17 Nid yw deddfwriaeth etholiadol yn mynnu bod Swyddogion Llywyddu yn datgelu gwybodaeth am nifer y pleidleiswyr, nac yn eu gwahardd rhag datgelu'r wybodaeth. Dim ond y cyfyngiadau canlynol ar gyfathrebu gwybodaeth cyn diwedd y pleidleisio a osodir gan y darpariaethau cyfrinachedd yn Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983:

- enw unrhyw un sydd wedi gwneud cais neu sydd heb wneud cais am bapur pleidleisio neu sydd wedi pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio ai peidio
- rhif etholwr unrhyw etholwr, neu ei ddirprwy, sydd wedi gwneud cais neu sydd heb wneud cais am bapur pleidleisio neu sydd wedi pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio ai peidio
- y marc swyddogol neu farc adnabod unigryw arall

2.18 Cyhyd â bod y Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) yn fodlon na fydd rhyddhau ffigurau nifer y pleidleiswyr yn rhwystro cynnal y bleidlais mewn unrhyw ffordd neu'n peryglu torri darpariaethau Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, gallant roi cyfarwyddyd i'r Swyddogion Llywyddu i ryddhau gwybodaeth am nifer y pleidleiswyr i ymgeiswyr ac asiantau.

2.19 Bydd angen cydbwyso unrhyw benderfyniad ynglŷn â ph'un ai a ddylid rhyddhau nifer y pleidleiswyr yn erbyn y baich gweinyddol y gall hyn ei osod ar Swyddogion Llywyddu.

2.20 Dylid rhoi gwybod i ymgeiswyr a'u hasiantau cyn yr etholiad beth yw penderfyniad y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â rhyddhau gwybodaeth am nifer y pleidleiswyr. Dylid diffinio'n glir dan ba amgylchiadau y gellir gofyn am y ffigurau, e.e. dim ond ar rai adegau yn ystod y dydd a/neu pan nad oes unrhyw etholwyr yn bresennol yn yr orsaf bleidleisio. Gellir cynnwys gwybodaeth i'r perwyl hwn mewn unrhyw becyn briffio i ymgeiswyr neu ei rhoi ynghyd â chanllawiau i ymgeiswyr ac asiantau a'r Cod ymddygiad ar drafod pleidleisiau drwy'r post, a'i chadarnhau mewn unrhyw sesiynau briffio i ymgeiswyr, eu hasiantau a staff gorsafoedd pleidleisio a gynhelir cyn yr etholiad.

Personadu

2.21 Yn anaml iawn, mae'n bosibl y bydd aelod o dîm yr orsaf bleidleisio, etholwr arall, ymgeisydd, asiant etholiad neu asiant pleidleisio yn amau bod rhywun sy'n gofyn am bapur pleidleisio yn rhywun gwahanol i'r person a honnir. Gall Swyddogion Llywyddu ofyn y cwestiynau a ragnodwyd cyn cyflwyno unrhyw bapurau pleidleisio, ond os atebir y cwestiynau'n foddhaol, yna mae'n rhaid cyhoeddi papur pleidleisio. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn caniatáu i'r Swyddog Llywyddu ofyn rhagor o gwestiynau i'r etholwr. Er mwyn cynorthwyo gydag ymholiadau pellach, gellid cynghori'r Swyddog Llywyddu i gofnodi datganiad tyst, gan nodi'r prif ffeithiau ac arsylwadau. Mae'r Comisiwn wedi datblygu patrymlun o ffurflen, sydd ar gael i'w lawrlwytho o'i wefan, y gellid ei defnyddio i gofnodi datganiad o'r fath, yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Mae cyngor pellach i Swyddogion Llywyddu ar sut i ymdrin â chyhuddiadau o bersonadu i'w gael yn yr *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio*.

Etholwyr dienw

2.22 Efallai bydd rhai etholwyr sydd â chofnodion dienw ar y gofrestr etholiadol. Caiff etholwyr dienw eu cofnodi ar y gofrestr heb eu henw a'u cyfeiriad: bydd eu rhif etholwr a'r llythyr 'N' yn ffurfio cynnwys eu cofnod ar y gofrestr. Bydd eu cofnod ar ddiwedd y gofrestr yn yr adran 'Etholwyr eraill'. Mae'r drefn bleidleisio ar gyfer etholwyr dienw yn wahanol i'r drefn ar gyfer etholwyr arferol: mae'n **rhaid** i etholwyr dienw ddod â'u cerdyn pleidleisio er mwyn pleidleisio.

Cyflwynir manylion llawn y drefn bleidleisio briodol ar gyfer etholwyr â chofnod dienw yn yr *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio* a dylid tynnu sylw atynt yn y sesiwn friffio a gynhelir i staff gorsafoedd pleidleisio cyn yr etholiad.

3 Y gofrestr etholwyr

Gweler Rhan B, ‘Gweithredu cyn y bleidlais’, Adran 2, ‘Cofrestr etholwyr’ am fanylion ar lunio’r gofrestr o etholwyr i Swyddogion Llywyddu.

Gwallau clercyddol

Y terfyn amser ar gyfer cywiro gwallau clercyddol ar y gofrestr yw 9pm ar ddiwrnod y pleidleisio.[6] Cyfrifoldeb y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw penderfynu ar wallau clercyddol.

3.1 Ceir dau fath o wall clercyddol a all ddod i sylw’r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar ddiwrnod y pleidleisio:

- y rhai lle y cofnodwyd etholwyr yn anghywir ar y gofrestr, e.e. camsillafwyd enw, neu mewnbynnwyd rhifau’n anghywir mewn dyddiad geni gan ddangos bod etholwr yn iau na 18 oed
- y rhai lle y derbyniwyd ffurflen gofrestru gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ond ni wnaed cofnod ar y gofrestr

3.2 Mae’n rhaid i’r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddod i benderfyniad ar unrhyw gais sy’n dangos bod y gofrestr yn ‘cynnwys’ gwall clercyddol. Pwrpas y rheolau ynglŷn â gwallau clercyddol yw ymdrin ag unrhyw wall clercyddol, gan gynnwys hepgor enwau sydd i’w gweld yn glir ar ffurflen gais i gofrestru a dderbyniwyd gan Swyddog Cofrestru Etholiadol mewn pryd ar gyfer yr etholiad dan sylw a phan wnaed gwall wrth brosesu'r ffurflen gais. Mewn achosion o’r fath mae hepgor yr enw ar y ffurflen gais yn golygu bod y gofrestr yn cynnwys gwall clercyddol.

3.3 Os, yw’r etholwr fodd bynnag wedi gwneud gwall wrth lenwi’r ffurflen gais ac mae’r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi prosesu’r ffurflen yn gywir, nid yw hyn yn ffurfio gwall clercyddol ac felly nid yw'r ddarpariaeth gwallau clercyddol yn ymdrin ag ef.

3.4 Gellir rhoi gwybod i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod gwall clercyddol ar y gofrestr naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig tan 9pm ar ddiwrnod y pleidleisio. Ni chaiff y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ddiwygio’r gofrestr, felly pan ddywedir wrth Swyddog Llywyddu mewn gorsaf bleidleisio fod gwall, mae’n rhaid iddo drosglwyddo'r gŵyn i’r Swyddog Cofrestru Etholiadol cyn gynted ag y bo’n ymarferol. [7] Mae’n amlwg felly bod angen systemau cyfathrebu digonol er mwyn gwneud a derbyn cwynion o'r fath.

3.5 Ym mhob achos, mae'n rhaid i’r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddod i benderfyniad ar y gŵyn erbyn 9pm ar ddiwrnod y pleidleisio er mwyn cywiro unrhyw wall a gwneud y diwygiad angenrheidiol i'r gofrestr etholiadol.

[6] Adran 13B, RPA 1983.
[7] Rheoliad 32A, RPR 2001.

3.6 Pan wneir diwygiad clercyddol i'r gofrestr, neu pan dderbynnir penderfyniad llys, mae'n rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi hysbysiad yn nodi'r diwygiad priodol. Rhaid gwneud hyn drwy ei roi ar gael i'w archwilio o dan oruchwyliaeth yn ei swyddfa ac mewn mannau eraill, os oes rhai, yn yr ardal gofrestru sydd â chyfleusterau rhesymol at y pwrpas hwn. Mae'n rhaid anfon copïau at y person y mae'n effeithio arno ac at dderbynyddion arferol y gofrestr (pleidiau gwleidyddol, y Comisiwn Etholiadol, ac ati). [8]

3.7 Mae'n rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gymryd camau rhesymol i sicrhau y caiff yr hysbysiad ei drosglwyddo i'r Swyddog Llywyddu priodol, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig, er mwyn sicrhau y caniateir i'r person sy'n destun yr hysbysiad bleidleisio. Mae'n amlwg bod angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gydlynu â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) er mwyn sicrhau bod systemau cyfathrebu digonol ar waith.

3.8 Os trosglwyddir yr hysbysiad ar lafar, sy'n cynnwys dros y ffôn, mae'n rhaid i'r Swyddog Llywyddu wneud cofnod ysgrifenedig o enw a rhif etholwr yr etholwr.[9]

3.9 Mae'n annhebygol y bydd angen cywiro gwallau clercyddol ar ddiwrnod y pleidleisio pan fydd yr etholwr yn ymddangos ar y gofrestr mewn rhyw ffordd ac yn gallu ateb yn gywir y cwestiynau statudol yn foddhaol. Serch hynny, dylid rhoi cyfarwyddyd i Swyddogion Llywyddu weithredu'n gyson mewn achosion o'r fath a, phan fo amheuaeth, dylent gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

3.10 Ar ôl derbyn yr wybodaeth ac ar ôl i'r etholwr perthnasol gyrraedd a gwneud cais am bleidlais, mae'n rhaid i'r Swyddog Llywyddu gyhoeddi papur pleidleisio yn y dull arferol. Mae'n rhaid marcio'r hysbysiad o wallau clercyddol ac apeliadau cofrestru, fel y'u diwygiwyd gan y Swyddog Llywyddu ar ddiwrnod y pleidleisio, er mwyn dangos bod yr etholwr wedi pleidleisio.

3.11 Mae'n rhaid cynnwys y copïau o'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio ac unrhyw gopi wedi'i marcio o'r hysbysiad a gyhoeddwyd i gywiro gwallau clercyddol ac apeliadau cofrestru fel y'u diwygiwyd gan y Swyddog Llywyddu ar ddiwrnod y pleidleisio, yn yr un paced wedi'i selio ar ddiwedd y pleidleisio.[10]

[8] Rheoliad 36(2), RPR 2001.
[9] Rheol 41A, PER.
[10] Rheol 43(1)(d), PER.

4 Rhifwyr ac asiantau pleidleisio

Rhifwyr

4.1 Hen arfer sydd wedi ennill ei blwyf yw i ymgeiswyr neu eu hasiantau benodi 'rhifwyr', a leolir y tu allan i orsafoedd pleidleisio i gofnodi enwau etholwyr sydd wedi pleidleisio, gan amlaf drwy ofyn iddynt am eu cerdyn pleidleisio neu rif etholwr. Diben hyn yw cynorthwyo gweithwyr i'r pleidiau nodi cefnogwyr posibl sydd heb bleidleisio eto.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi ymgynghori ar ganllawiau ar weithrediadau rhifwyr. Mae'r canllawiau hyn i'w gweld yn yr *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio* a'r *Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantau* a gyhoeddir gan y Comisiwn. Gellir lawrlwytho'r dogfennau hyn o wefan y Comisiwn yn www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/uk-parliamentary-elections.

Dylai Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) ystyried rhoi copïau o'r canllawiau ar weithrediadau rhifwyr i orsafoedd pleidleisio y gallai staff gorsafoedd pleidleisio eu rhoi rifwyr ar ddiwrnod y pleidleisio.

4.2 Mae'n bwysig cofio mai'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad, ac felly os yw'n teimlo bod gweithrediadau'r rhifwyr yn effeithio'n andwyol ar y pleidleisio, dylai ofyn i'r rhifwyr gydymffurfio â'r ymddygiad y cytunwyd arno neu ymadael â'r man pleidleisio.

4.3 Os derbynnir unrhyw adroddiadau am ddigwyddiadau'n digwydd mewn gorsafoedd pleidleisio, dylid anfon aelodau o staff sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau o orsafoedd pleidleisio at y gorsafoedd cyn gynted ag y bo modd gyda'r nod o ddatrys unrhyw broblemau. Byddai'n fuddiol hefyd cael rhif ffôn yr heddlu lleol rhag ofn na ellir datrys unrhyw ddigwyddiadau yn gyfeillgar.

Asiantau pleidleisio

4.4 Gall ymgeiswyr drefnu i asiantau pleidleisio weithio ar eu rhan mewn gorsafoedd pleidleisio ar ddiwrnod y pleidleisio, er nad oes unrhyw rwymedigaeth arnynt i benodi asiantau o'r fath. Gellir penodi unrhyw berson, heblaw am swyddogion a gyflogir gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) i weithredu fel asiant pleidleisio. Nid oes terfyn ar nifer yr asiantau pleidleisio y gellir eu penodi.

4.5 Gall asiantau pleidleisio ymgeiswyr a enwebwyd sy'n sefyll, neu unrhyw berson a awdurdodwyd yn ysgrifenedig ganddynt, benodi asiantau pleidleisio.

4.6 Mae'n rhaid rhoi enwau a chyfeiriadau unrhyw asiantau pleidleisio i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn ysgrifenedig heb fod yn hwyrach na dau ddiwrnod gwaith cyn diwrnod y pleidleisio.

Mae rhagor o wybodaeth am broses penodi asiantau pleidleisio ac asiantau cyfrif i'w chael yn Rhan B, ‘Gweithredu cyn y pleidleisio’, Adran 5, ‘Penodi asiantau etholiad, pleidleisio a chyfrif’.

4.7 Mae gofyn i asiantau pleidleisio gadw cyfrinachedd y pleidleisio ac maent yn ddarostyngedig i’r gofynion cyfreithiol yn ymwneud â chyfrinachedd a geir yn Adran 66 RPA 1983.

Beth mae asiant pleidleisio yn ei wneud?

4.8 Mae asiantau pleidleisio’n ateb nifer o ddibenion i ymgeiswyr. Gallant:

- arsylwi’r Swyddog Llywyddu’n dangos y blwch/blychau pleidleisio gwag cyn iddynt gael eu selio
- mynnu bod y Swyddog Llywyddu’n gofyn y cwestiynau statudol i unrhyw etholwr yr amheuir ei fod yn personadu neu’n ceisio pleidleisio’r eilwaith cyn cyhoeddi papur pleidleisio iddynt
- bod yn bresennol pan fydd y Swyddog Llywyddu’n marcio papurau pleidleisio ar gais etholwyr
- marcio ar eu copi o’r gofrestr etholwyr y pleidleiswyr hynny sydd wedi gwneud cais am bapur pleidleisio
- bod yn bresennol ar ddiwedd y bleidlais pan gaiff y gwahanol bacedi o ddogfennau eu selio a gallant gysylltu eu sêl iddynt, gan gynnwys ar y blwch/blychau pleidleisio

4.9 Mae’n rhaid i asiantau pleidleisio gadw cyfrinachedd y bleidlais. Mae’n rhaid iddynt beidio â rhoi gwybodaeth i unrhyw un ynglŷn â phwy sydd wedi pleidleisio neu heb bleidleisio, neu rif etholwr rhywun, neu'r marc swyddogol. Gall asiantau pleidleisio gofnodi ar eu copi o'r gofrestr etholwyr y pleidleiswyr hynny sydd wedi gwneud cais am bapurau pleidleisio, ond os gadawant yr orsaf bleidleisio yn ystod oriau’r pleidleisio, dylid gadael eu copi wedi'i farcio o'r gofrestr yn yr orsaf bleidleisio er mwyn peidio â thorri'r gofynion cyfrinachedd.

4.10 Ni ellir caniatáu i fwy nag un asiant pleidleisio ar ran yr un ymgeisydd ddod i mewn i’r un orsaf bleidleisio ar yr un pryd. Gellir penodi unrhyw asiant i fynd i fwy nag un orsaf bleidleisio.

4.11 Er bod gan asiant pleidleisio hawl i fod yn dyst i wahanol agweddau ar y weithdrefn bleidleisio, nid yw'r weithdrefn yn annilys os nad yw wedi bod yn dyst iddi.

4.12 Caiff asiant etholiad neu is-asiant hefyd wneud unrhyw beth y mae asiant pleidleisio wedi’i awdurdodi i’w wneud.

5 Gweithdrefn ar gau'r pleidleisio

5.1 Dylid briffio Swyddogion Llywyddu i gau eu gorsafoedd pleidleisio'n brydlon am 10pm. Dylid rhoi cyfarwyddiadau clir iddynt ar yr hyn y disgwylir iddynt ei wneud ar ôl diwedd y bleidlais ac yn benodol sut i lenwi'r cyfrif papurau pleidleisio. Dylid gorchymyn i Glercod Pleidleisio ddelio â hysbysiadau, sgriniau pleidleisio a chyfarpar tebyg er mwyn caniatáu i'r Swyddogion Llywyddu ganolbwyntio ar y gwaith papur pwysig.

5.2 Dylid rhoi gwybod i'r holl staff gorsafoedd pleidleisio bod gan unrhyw asiantau pleidleisio, ymgeiswyr a'u hasiantau sy'n bresennol yn yr orsaf bleidleisio ar ddiwedd y bleidlais hawl i roi eu sêl(seliau) ar y blwch pleidleisio a'r pacedi o ddogfennau, a dylid caniatáu iddynt wneud hyn.

5.3 Dylid darparu cyfarwyddiadau clir i'r Swyddogion Llywyddu ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer casglu'r blychau pleidleisio a'r cyfrifon papurau pleidleisio, a'u danfon ymlaen at leoliad y cyfrif, os nad yw'r Swyddogion Llywyddu eu hunain yn cludo'r blychau i leoliad y cyfrif. Dylid darparu cyfarwyddiadau clir ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer dosbarthu'r blychau i'r rhai y mae gofyn iddynt gludo'r blychau i leoliad y cyfrif. Yn yr achos hwn, dylid rhoi gwybod i'r Swyddogion Llywyddu am leoliad y man cyfrif, unrhyw drefniadau parcio, i ba fynedfa y dylent ddanfon eu blychau pleidleisio, a'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r blychau, y cyfrifon papur pleidleisio, unrhyw bleidleisiau drwy'r post a gyflwynwyd yn yr orsaf bleidleisio ac unrhyw ddeunydd papur etholiadol arall, gan gynnwys cofrestri wedi'u marcio.

5.4 Dylid darparu rhif cysylltu i'r Swyddogion Llywyddu rhag ofn iddynt gael unrhyw anawsterau neu rwystrau i gyrraedd man y cyfrif. Mae'n bwysig bod staff ar ddyletswydd ar gyfer y rhif hwn nes y cyfrifir am yr holl flychau.

5.5 Dylai'r Swyddogion Llywyddu wedi cael cyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r cyfrif papurau pleidleisio yn gywir ac ar selio'r gwahanol bacedi o ddogfennau, a dylai hyn fod yn rhan bwysig o'u hyfforddiant. Ceir cyfarwyddiadau ar sut i lenwi'r cyfrif papurau pleidleisio a rhestr wirio o'r holl bacedi yn yr *Llawlyfr i staff gorsaf bleidleisio*. Serch hynny, mae'n bwysig sicrhau y caiff y rhain eu gwirio eto pan fyddant yn cyrraedd man y cyfrif.

Cyfuno
Os cyfunir y bleidlais mewn etholiad cyffredinol Seneddol y DU gyda phleidlais mewn etholiad arall, dylid ystyried defnyddio lliwiau gwahanol ar gyfer y cyfrifon papurau pleidleisio er mwyn cyd-fynd â phapurau pleidleisio'r etholiadau gwahanol. Bydd hyn yn lleihau'r risg y bydd Swyddogion Llywyddu'n cofnodi'r nifer o bapurau pleidleisio a gyhoeddwyd ar gyfer etholiad cyffredinol Seneddol y DU ar y ffurflen ar gyfer yr etholiad arall, ac fel arall.

5.6 Er mwyn hwyluso effeithlonrwydd, dylai'r Swyddog Llywyddu gyflwyno'r cyfrif papurau pleidleisio a'r paced yn cynnwys y pleidleisiau drwy'r post a ddychwelwyd i'r orsaf bleidleisio ar wahân i unrhyw ddogfennau eraill a drosglwyddir yn lleoliad y cyfrif. Er mwyn sicrhau nad aiff y cyfrif papurau pleidleisio ar goll wrth ei gludo gellir ei lynu'n ddiogel wrth y blwch pleidleisio.

5.7 Dylid cofnodi derbyn y dogfennau canlynol hefyd wrth iddynt gyrraedd y man cyfrif:

- y papurau pleidleisio heb eu defnyddio ac a ddifethwyd
- y papurau pleidleisio a gyflwynwyd a ddefnyddiwyd
- y copi o'r gofrestr a farciwyd (gan gynnwys unrhyw gopïau o hysbysiadau diwygio a farciwyd) a'r rhestr o ddirprwyon
- y rhestr rhifau cyfatebol wedi'i llenwi
- y papurau pleidleisio a ddifethwyd a'r tystysgrifau cyflogaeth
- y rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd, y rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion, y rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu a'r datganiad sy'n mynd gyda hi, a'r datganiadau a wnaed gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau.

5.8 Dylid darparu sachau gwahanol i Swyddogion Llywyddu, wedi'u labelu'n glir ac efallai o liwiau gwahanol, gan gynnwys un sach ar gyfer y pacedi o ddogfennau i'w dychwelyd i'r swyddog priodol eu storio ac un arall ar gyfer eitemau eraill o ddeunydd papur. Dylid dweud wrth Swyddogion Llywyddu i waredu unrhyw sbwriel yn yr orsaf bleidleisio a gadael yr adeilad yn barod i gael ei ddefnyddio at ei bwrpas gwreiddiol.

5.9 Mae'n ddefnyddiol penodi saff sydd ond yn gyfrifol am dderbyn a gwirio eitemau i mewn i leoliad y cyfrif nes i'r holl ddeunyddiau gael eu derbyn o'r gorsafoedd pleidleisio.

Atodiad – Adnoddau

Rhestr wirio cyfarpar

Y rhestr lawn o eitemau y dylid eu darparu ym mhob gorsaf bleidleisio yw fel a ganlyn:

- blwch/blychau pleidleisio
- rhannau perthnasol y gofrestr ac unrhyw hysbysiadau a gyhoeddwyd o dan Adran 13B(3B) neu (3D) RPA 1983
- y rhestr rhifau cyfatebol
- rhestri pleidleiswyr absennol – pleidleiswyr trwy'r post, a dirprwyon sy'n pleidleisio a dirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post
- papurau pleidleisio
- cyfrif papurau pleidleisio
- papurau pleidleisio a gyflwynwyd
- offer stampio (os nad yw'r marc swyddogol wedi'i ragargraffu)
- dyfais bleidleisio at ddefnydd pleidleiswyr dall neu rannol ddall
- copi o'r cwestiynau statudol
- copi o'r gofynion mewn perthynas â chyfrinachedd (Adran 66 RPA 1983)
- ffurflenni ar gyfer datganiad gan gymdeithion pleidleiswyr ag anableddau
- ffurflen rhestr pleidleisiau a gyflwynwyd
- ffurflen rhestr pleidleisiau a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- ffurflen datganiad nifer y pleidleiswyr a farciwyd gan y Swyddog Llywyddu
- ffurflen rhestr pleidleiswyr ag anableddau a gynorthwywyd gan gymdeithion
- cyfarwyddyd ar ganllawiau i bleidleiswyr
- fersiwn print bras o'r papur pleidleisio
- copi sampl wedi'i ehangu o'r papur pleidleisio a ddelir â llaw
- hysbysiadau bythau pleidleisio
- hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio
- sgriniau pleidleisio
- seliau plastig neu gloeon ar gyfer selio'r blwch pleidleisio[11]
- pensiliau at ddefnydd pleidleiswyr, a llinyn i'w ddefnyddio i'w glynu wrth y bythau pleidleisio
- papur nodiadau at ddefnydd staff yr orsaf pleidleisio
- offer ysgrifennu ac ati yn ôl yr angen, e.e. clipiau papur, piniau bawd, Blu-tack, tâp adlynol
- amlenni, â seliau o ddewis, i roi'r papurau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir i'r orsaf bleidleisio ynddynt
- amlenni ar gyfer gwneud y pacedi
- sachau plastig ar gyfer dychwelyd deunyddiau ysgrifennu a chyfarpar i'r man gwirio

[11] Nid yw'r Comisiwn yn argymhell defnyddio cŵyr selio oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, os defnyddir y dull hwn, mae'n bwysig rhoi cyfarwyddiadau i staff fod yn ofalus iawn.

- ffurflen i gofnodi gwallau ar y gofrestr etholwyr (a all ffurfio rhan o log yr orsaf bleidleisio neu i'w hatodi i gofrestr yr orsaf bleidleisio)
- ffurflen rhestr i gofnodi etholwyr a farciwyd fel pleidleiswyr drwy'r post ond sy'n honni nad ydynt wedi gwneud cais am un

Rhestr wirio hygyrchedd ar gyfer diwrnod y pleidleisio – gosod gorsaf bleidleisio

Gall y ffordd y gosodir gorsaf bleidleisio ar y cychwyn benderfynu a yw'n hygyrch neu beidio. Mae felly'n bwysig tynnu sylw staff pleidleisio sy'n gyfrifol am osod gorsafoedd pleidleisio at yr ystyriaethau canlynol.

Arwyddion mewn gorsafoedd pleidleisio

- Dylid gosod arwyddion fel eu bod yn cyfeirio etholwyr i'r fynedfa ar gyfer pleidleiswyr anabl, os yw hon yn wahanol i'r brif fynedfa i'r orsaf bleidleisio.
- Dylid gosod pob arwydd ar uchder priodol, fel y gall rhywun mewn cadair olwyn eu darllen yn ddidrafferth.
- Gellid arddangos hysbysiad syml y tu allan i orsafoedd pleidleisio i ddweud wrth bleidleiswyr am ofyn i'r Swyddog Pleidleisio ddarparu cymorth os oes angen.
- Dylai arwydd fawr gorsaf bleidleisio fod yn weladwy o'r brif ffordd.

Lleoedd parcio i bobl anabl

- Dylai unrhyw leoedd parcio ar gyfer pobl anabl gael eu marcio'n glir.
- Ni ddylai staff gorsafoedd pleidleisio barcio eu ceir eu hunain yn y lleoedd hyn a dylent, os yw'n bosibl, wirio'r mannau parcio drwy gydol diwrnod y pleidleisio er mwyn sicrhau y cânt eu cadw at ddefnydd pobl anabl.

Mynediad gwastad i orsafoedd pleidleisio

- Os bydd rampiau dros dro yn cael eu defnyddio mewn gorsaf bleidleisio, dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Llywyddu o flaen llaw ac yn ddelfrydol dylid dangos iddo sut i'w gosod os na fyddant wedi'u gosod cyn diwrnod y pleidleisio.
- Dylai rampiau fod yn ddiogel ac yn sad ac â graddient isel. Os na chânt eu gosod yn iawn, gallant fod yn beryglus a gallant achosi anafiadau i etholwyr.
- Dylid cadw rampiau'n glir o unrhyw rwystrau.
- Dylai staff gorsafoedd pleidleisio wirio unrhyw rampiau dros dro ar gyfnodau rheolaidd er mwyn sicrhau nad ydynt wedi dod yn rhydd ac nad ydynt yn beryglus i etholwyr.

Mynedfeydd i orsafoedd pleidleisio

- Os yw'n bosibl dylid defnyddio prif fynedfa sy'n hygyrch i bobl anabl.
- Os oes mynedfa ar wahân i bobl anabl, dylai fod arwyddion clir ar hon a dylid ei chadw ar agor.
- Gall drysau trwm y mae'n anodd eu hagor fod yn rhwystr mawr i rai etholwyr. Gall rhoi rhywbeth yn erbyn drysau i'w cadw ar agor fod yn

help, er nad yw hyn yn ddelfrydol os yw'n peri i staff eistedd mewn drafft oer a bod rhaid i etholwyr bleidleisio yn yr oerni.
- Dylid symud unrhyw fatiau rhydd ymaith os yw'n bosibl y gall rhywun faglu drostynt.

Y tu mewn i'r orsaf bleidleisio

- Mae diffyg lle y tu mewn i orsaf bleidleisio'n achosi problemau i bobl sydd ag anhawster symud ac sydd efallai angen mwy o le i symud o gwmpas. Mae hefyd yn golygu na ellir sicrhau i bobl fod eu pleidlais yn gyfrinachol ac nad yw pleidleiswyr eraill yn gallu ei gweld. Felly, dylai staff gorsaf bleidleisio osod yr orsaf bleidleisio gan ystyried y lleoliad gorau ar eu cyfer eu hunain, ar gyfer y blwch pleidleisio a'r bythau pleidleisio, gan sicrhau bod gan bobl ddigon o le i ddod i mewn, gadael a symud o gwmpas yr orsaf bleidleisio.

Goleuo gorsafoedd pleidleisio

- Mae goleuo digonol yn bwysig i bobl sydd â namau ar y golwg. Mae golwg llawer o bobl yn dibynnu ar ansawdd y goleuo, yn enwedig ar gyfer darllen ac ysgrifennu. Mae goleuo da, yn y bwth pleidleisio a lle yr arddangosir y fersiwn print bras o'r papur pleidleisio, yn hanfodol.
- Dylai goleuo y tu allan i'r orsaf bleidleisio, yn enwedig yn yr ardal sy'n arwain at y fynedfa, fod yn ddigonol.
- Mae goleuo y tu mewn i'r fynedfa, coridorau a'r ystafell lle y lleolir y bythau pleidleisio hefyd yn bwysig fel y gall pleidleiswyr fynd i'r bwth pleidleisio ac i ffwrdd ohono'n rhwydd.
- Mae angen i staff yr orsaf bleidleisio fod yn ymwybodol o'r amgylchiadau o ran golau yn yr orsaf bleidleisio a chynnau pa oleuadau bynnag sy'n angenrheidiol.
- Ni ddylid rhoi bythau pleidleisio mewn golau haul uniongyrchol oherwydd gallai'r llacharedd achosi anawsterau i rywun sydd â nam ar y golwg.

Bythau pleidleisio lefel isel a blychau pleidleisio

- Mae bythau pleidleisio lefel isel yn ffordd rwydd o wella hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio a dylid eu gosod ym mhob gorsaf bleidleisio.
- Dylid rhoi'r blwch pleidleisio ar gadair yn hytrach nag ar fwrdd oherwydd bod hyn yn caniatáu cyfle i ddefnyddwyr cadeiriau olwynion a phobl eraill na allant gyrraedd blychau pleidleisio fwrw eu pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol.
- Mae stribed gwyn wedi'i roi o amgylch slot y blwch pleidleisio yn helpu pobl sydd â nam ar y golwg i ddod o hyd i'r agoriad yn haws.

Canllawiau i bleidleiswyr

- Gellir cynhyrchu'r arwydd y mae'n rhaid ei arddangos ym mhob adran o bob gorsaf bleidleisio sy'n esbonio sut i lenwi'r papur pleidleisio mewn fformat graffigol neu mewn unrhyw ffordd arall sy'n gwneud y wybodaeth

yn fwy hygyrch i bobl na fyddai fel arall ganddynt fynediad rhesymol at yr wybodaeth.

Hysbysiad print bras o'r papur pleidleisio a chopi sampl a ddelir â llaw

- Mae hysbysiadau print bras yn bwysig i bobl sydd â namau ar y golwg a gallant ganiatáu i rywun bleidleisio'n annibynnol.
- Mae'n rhaid arddangos o leiaf un fersiwn print bras o'r papur pleidleisio y tu mewn i'r orsaf bleidleisio i gynorthwyo pleidleiswyr sy'n ddall neu â golwg rhannol. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol darparu mwy nag un fersiwn print bras o'r papur pleidleisio.
- Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod copi wedi'i ehangu a ddelir â llaw o'r papur pleidleisio, wedi'i marcio fel 'sampl', ar gael i unrhyw un sydd ei eisiau. Gellir rhoi hyn i bleidleiswyr i fynd ag ef i mewn i'r bwth pleidleisio gyda hwy. Os yw'r rhain wedi'u lamineiddio, mae'n helpu i'w hatal rhag mynd yn frwnt neu gael eu rhwygo.

Dyfais i alluogi pleidleiswyr sy'n ddall neu â golwg rhannol i bleidleisio heb gymorth

- Mae'n ofynnol yn gyfreithiol ddarparu dyfais bleidleisio gyffyrddadwy ym mhob gorsaf bleidleisio. Mae'r patrymlun cyffyrddadwy yn ddyfais sy'n caniatáu i rywun sy'n ddall neu â golwg rhannol farcio'r papur pleidleisio eu hunain ar ôl i'r manylion ar y papur pleidleisio gael eu darllen ar goedd, naill ai gan eu cydymaith neu gan y Swyddog Llywyddu
- Dylid gwneud staff yr orsaf bleidleisio'n ymwybodol bod darparu patrymlun cyffyrddadwy yn ofyniad cyfreithiol a dylent gael eu hyfforddi i ddefnyddio'r ddyfais er mwyn gallu cynorthwyo'r rhai sydd eisiau pleidleisio yn defnyddio'r ddyfais.
- Mewn llawer o achosion, efallai na fydd pleidleiswyr sy'n gweld y patrymlun yn ddefnyddiol yn ymwybodol ei fod ar gael iddynt ddefnyddio. Efallai byddai felly'n ddefnyddiol i staff yr orsaf bleidleisio awgrymu i etholwyr efallai yr hoffent ddefnyddio'r ddyfais lle bo'n ymddangos yn briodol. Mae'r ymagwedd gywir yn bwysig i osgoi peri tramgwydd.

Seddau

- Gellir darparu cadeiriau mewn gorsafoedd pleidleisio ar gyfer unrhyw un sydd angen gorffwys. Fodd bynnag, ni ddylid rhoi cadeiriau fel eu bod yn ffordd pleidleiswyr eraill, ac ni ddylent edrych dros bobl sy'n bwrw eu pleidleisiau.

Cyffredinol

- Dylid trin pob etholwr, gan gynnwys pobl anabl a phobl hyn, fel unigolion. Mae'r dull a ddefnyddir i fynd at bobl o'r fath yn bwysig: os ydych yn meddwl bod rhywun angen cymorth, gofynnwch iddynt yn gyntaf yn hytrach na gwneud rhagdybiaethau.

- Gallai Swyddogion Llywyddu osod bwrdd yn yr orsaf bleidleisio gyda'r holl ddeunyddiau ar gyfer pleidleiswyr anabl, fel y gallant hwy neu'u cymdeithion weld popeth sydd ar gael i'w cynorthwyo, gan gynnwys y copiau sampl wedi'u hamlygu a'r dyfeisiau i gynorthwyo pleidleiswyr sy'n ddall neu'n gweld yn rhannol.
- Efallai bydd ceisio adborth gan bleidleiswyr anabl ynglŷn â'r mynediad a'r cyfleusterau ar gyfer pobl anabl yn eu gorsaf bleidleisio yn helpu i amlygu unrhyw faterion a oedd yn ddisylw yn flaenorol a gyrru gwelliannau yn y dyfodol.

Hysbysiad o ofynion cyfrinachedd

Adran 66 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (fel y'i diwygiwyd)

(1) The following persons –

(a) every returning officer and every presiding officer or clerk attending at a polling station,

(b) every candidate or election agent or polling agent so attending

(c) every person so attending by virtue of any of sections 6A to 6D of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000

shall maintain and aid in maintaining the secrecy of voting and shall not, except for some purpose authorised by law, communicate to any person before the poll is closed any information as to –

(i) the name of any elector or proxy for an elector who has or has not applied for a ballot paper or voted at a polling station;

(ii) the number on the register of electors of any elector who, or whose proxy, has or has not applied for a ballot paper or voted at a polling station; or

(iii) the official mark.

[...]

(3) No person shall –

(a) interfere with or attempt to interfere with a voter when recording his vote;
(b) otherwise obtain or attempt to obtain in a polling station information as to the candidate for whom a voter in that station is about to vote or has voted;
(c) communicate at any time to any person any information obtained in a polling station as to the candidate for who a voter in that station is about to vote or has voted, or as to the number or other unique identifying mark on the back of the ballot paper given to a voter at that station;
(d) directly or indirectly induce a voter to display his ballot paper after he has marked it so as to make known to any person the name of the candidate for whom he has or has not voted.

[...]

(5) No person having undertaken to assist a blind voter to vote shall communicate at any time to any person any information as to the candidate for whom that voter intends to vote or has voted, or as to the number or other unique identifying mark on the back of the ballot paper given for the use of that voter.

(6) If a person acts in contravention of this section he shall be liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale or to imprisonment for a term not exceeding 6 months.